Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# {my}dentist, Aberystwyth
# Dyddiad y gweithgarwch: 15 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-733-5



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o bractis {my}dentist, Aberystwyth fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae practis {my}dentist, Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG i gleifion yn ardal Ceredigion. Mae'r practis yn rhan o Integrated Dental Holdings (Grŵp IDH), o'r enw '{My}dentist', ac mae ganddo rwydwaith o bractisau deintyddol ledled y DU. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyflawni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (a rheoliadau a safonau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr cofrestredig[1] a swyddog rheoleiddio practis {my}dentist ar 15 Mehefin 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

[1] Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- gweithdrefnau ailddechrau darparu gwasanaethau deintyddol yn ystod COVID-19.
- yr asesiad risg amgylcheddol diweddaraf

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi parhau i ddarparu mynediad i gleifion drwy gydol y pandemig yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd y cleifion yn cael gwasanaeth brysbennu ac ymgynghoriadau o bell dros y ffôn, neu drwy'r cynllun 'Attend Anywhere'. Rhoddwyd cyngor i gleifion a pharhawyd i ragnodi gwrthfiotigau lle bo angen. Atgyfeiriwyd y cleifion â chyflyrau deintyddol difrifol neu frys at y canolfannau deintyddol brys a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Gwelsom fod asesiad risg COVID-19 manwl wedi ei gynnal yn y practis a oedd yn amlinellu'r mesurau a roddwyd ar waith er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd ac o bob cam o daith y claf. Gwelsom dystiolaeth bod aelodau presennol o'r staff a staff newydd yn y practis wedi llofnodi'r asesiad risg i gadarnhau eu bod wedi'i ddarllen a'i ddeall.

Gwelsom bolisïau a oedd wedi'u diweddaru i ddogfennu newidiadau i'r arferion safonol ers dechrau COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys y polisi 'Glanhau a chynnal a chadw amgylcheddol', a oedd yn adlewyrchu canllawiau arferion gorau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig. Dywedwyd wrthym fod y ddogfen yn cael ei diweddaru'n ganolog gan y cwmni bob tro roedd diweddariadau newydd yn cael eu cyhoeddi, a bod rheolwr y practis yn eu rhannu ag aelodau o'r staff yn lleol yn dilyn hynny.

Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y drws ffrynt yn cael ei gloi bob amser er mwyn atal aelodau o'r cyhoedd rhag mynd i mewn i'r safle ar eu pen eu hunain a heb apwyntiad. Mae pob claf yn cael ei sgrinio am symptomau COVID-19 24 awr cyn ei apwyntiad, ac ar ôl cyrraedd cyn cael ei dderbyn i'r practis. Dywedwyd wrthym

fod y staff a oedd yn derbyn cleifion i'r safle yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, a bod angen i bob claf wisgo masg bob amser, oni bai ei fod yn cael triniaeth.

Disgrifiodd rheolwr cofrestredig y mesurau a oedd wedi'u rhoi ar waith yn y practis er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel i gleifion yr oedd angen gwasanaethau arnynt yn ystod y pandemig. Symudwyd taflenni ac eitemau diangen o'r ystafell aros i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Symudwyd cadeiriau o'r ystafell aros i osgoi cael gormod o bobl yno, ac er mwyn sicrhau y gallai'r cleifion gadw pellter cymdeithasol diogel oddi wrth ei gilydd. Mae sticeri a phosteri i atgoffa'r cleifion am y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol wedi'u gosod ar y llawr a'r waliau. Gosodwyd sgriniau clir ar ddesg y dderbynfa er mwyn helpu i ddiogelu'r staff.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod system ar waith i sicrhau bod y cyfarpar dadebru a'r cyffuriau brys yn parhau i fod mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cynhelir gwiriadau dyddiol ar y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd (AED), y silindrau ocsigen a masgiau falf. Mae dyddiadau dod i ben y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cofnodi a'u monitro'n ganolog, a rhoddir gwybod i'r practis pan fydd angen cael rhai newydd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[2] a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- amserlenni glanhau'r deintyddfeydd
- cofnodion o wiriadau dyddiol o awtoclafau
- cofnodion o wiriadau dyddiol o'r bath uwchsain

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom ddogfen a grëwyd gan y cwmni a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau gweithredu safonol i'r staff eu dilyn wrth roi triniaeth ddeintyddol yn y practis yn ystod y pandemig. Gwelsom ei bod yn ymgorffori'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar feysydd megis PPE priodol, a'r cyfnodau segur a oedd yn ofynnol yn dilyn Gweithdrefnau

[2] Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

sy'n Cynhyrchu Aerosol[3] (AGPs). Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi cael diweddariadau rheolaidd ynglŷn â COVID-19 drwy negeseuon e-bost, grŵp WhatsApp a thrwy sgyrsiau unigol rheolaidd. [4]

Dywedwyd wrthym fod amseroedd apwyntiadau wedi'u hymestyn fel bod pob deintyddfa yn gallu cael ei glanhau rhwng pob claf. Gwelsom dystiolaeth bod rhestrau gwirio yn cael eu cwblhau a'u cynnal ar gyfer pob deintyddfa. Amlinellodd y rhestrau gwirio y tasgau atal a rheoli heintiau a wneir ar ddechrau, yn ystod ac ar ddiwedd pob sesiwn, yn ogystal â phob wythnos a phob chwarter.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob aelod o'r staff sy'n bresennol yn ystod y gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol wedi cael masgiau FFP3[5], a'u bod wedi cael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio ar eu hwynebau'n iawn i ddiogelu'r staff yn briodol. Dywedwyd wrthym fod lefelau stoc PPE wedi cael eu monitro'n wythnosol er mwyn sicrhau bod digon wedi bod ar gael drwy gydol y pandemig.

Cyn y gwiriad ansawdd, cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm clinigol. Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol mewn atal a rheoli heintiau a dihalogi. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod y staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol yn ystod y pandemig ar bynciau megis gwisgo a diosg PPE, a'i waredu'n ddiogel, ac ar y systemau hidlo aer newydd sydd wedi'u gosod yn y deintyddfeydd.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau a dihalogi wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru[6], sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer dda am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu dilynol ar waith ac yn cael ei fonitro.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn gweithio fel sy'n ofynnol. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclaf[7] a'r bath uwchsain[8] yn dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[3] Ystyr cyfnod segur yw'r amser a gymerir i ronynnau setlo yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol sy'n defnyddio offerynnau megis driliau, digenyddion uwchsain a sgleinwyr aer.
[4] Ap negeseua gwib aml-lwyfan yw WhatsApp, sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar i gyfnewid negeseuon testun, delweddau, fideo a sain am ddim.
[5] Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bach yn yr awyr a all gynnwys feirysau.
[6] Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu i sicrhau Cymru iachach. Mae'n Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn GIG Cymru ac yn eistedd ochr yn ochr ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd.
[7] Eitemau o gyfarpar a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offerynnau a deunyddiau a ddefnyddir yn ystod triniaethau proffesiynol yw awtoclafau.
[8] Mae bath uwchsain yn glanhau offerynnau gan ddefnyddio tonnau sain a gynhyrchir gan ynni trydanol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Taflen Wybodaeth i Gleifion
- Datganiad o Ddiben
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnodion
- Cynllun parhad busnes
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom gopi o'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben[9], a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir yn unol â'r rheoliadau.

Yn dilyn trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig a'r swyddog rheoleiddio, roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopïau o'r archwiliadau perthnasol a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar, megis rhagnodi gwrthfiotigau, cofnodion cleifion a phelydrau-X. Roedd yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau, ac roedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i gynnal lle y bo'n briodol.

Cawsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a gwelsom hefyd eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu. Anfonwyd copi o gynllun parhad busnes atom hefyd, a oedd yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau y gall y practis barhau i weithredu'n ddiogel os bydd argyfwng neu drychineb naturiol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael asesiad risg COVID-19 manwl[10] er mwyn asesu'r risgiau personol o ganlyniad i barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19. Roedd hyn yn bwysig iawn i'r staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n

[9] Yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru ag AGIC gael Datganiad o Ddiben, sy'n nodi manylion penodol am y practis.
[10] Mae'r asesiad risg yn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19.

gweithio yn y practis. Anfonwyd tystiolaeth atom i ddangos bod yr holl asesiadau risg wedi'u cynnal, gyda threfniadau amgen addas wedi'u nodi ar gyfer staff agored i niwed. Dywedwyd wrthym nad yw'r practis wedi cael unrhyw absenoldebau staff estynedig o ganlyniad i COVID-19, sydd wedi golygu na fu unrhyw effaith ar ddarparu gwasanaethau. Os bydd angen, bydd aelodau o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau {my}dentist eraill yn cyflenwi ar gyfer absenoldebau staff, megis salwch neu wyliau blynyddol, yn lle defnyddio staff asiantaeth.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom yr ystadegau hyfforddiant ar gyfer y tîm clinigol a oedd yn dangos bod bron pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd yr hylenydd wedi adnewyddu ei hyfforddiant ar ddiogelu plant eto; mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

Cawsom wybod bod trefniadau ar waith i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis yn ystod Mehefin 2021, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhaid i'r practis roi copi o'r adroddiad i AGIC i ddangos tystiolaeth o'r ffordd y caiff ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ei reoli a'i asesu yn unol â gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: {my}dentist, Aberystwyth

Dyddiad y gweithgarwch: 15 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r hylenydd gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant cyn gynted â phosibl. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 14(b) | Diogelu plant lefel 1 a 2 wedi'i gwblhau 13 Mehefin 2021 | | Wedi'i gwblhau |
| 2 | Rhaid i'r practis roi copi o'r adroddiad i AGIC ar ôl i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis ym mis Mehefin 2021. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 16(3) | Cwblhawyd ymweliad gan y darparwr ar 23 Mehefin 2021. Caiff adroddiad ei ysgrifennu a'i anfon i'r practis erbyn 31 Gorffennaf 2021 | Sarah-Jane Davies (Swyddog Rheoleiddio) | 31 Gorffennaf 2021 |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: George Johnson

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2021